## PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

## CEFNOGAETH HYFFORDDIANT CYCHWYNNOL I ATHRAWON

### Diben

1. Papur er gwybodaeth yn unig yw hwn. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 14 Tachwedd addawodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes y byddai'n darparu nodyn i aelodau ar daliadau cymell hyfforddiant cychwynnol i athrawon. Darperir gwybodaeth hefyd ar nifer yr hyfforddai ar gyrsiau hyfforddiant cychwynnol i athrawon yng Nghymru, ac ar faint o'r rhain oedd ar gyrsiau ôl-raddedig.
2. Mae'r papur hwn yn cwmpasu cyllido hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn benodol, yn hytrach na mesurau ehangach o gefnogaeth myfyrwyr megis benthyciadau myfyrwyr, Benthyciadau Caledi a Chronfeydd Mynediad/Caledi. Nid yw chwaith yn delio â chefnogaeth hyfforddiant mewn-swydd athrawon, e.e. Grantiau Cymorth a Hyfforddiant Addysgol (GEST).

### Cymhellion hyfforddiant cychwynnol i athrawon y Cynulliad Cenedlaethol

3. Bydd grant o £6,000 ar gael i bob hyfforddai ôl-raddedig cymwys yn ystod eu cwrs hyfforddi cychwynnol i athrawon o fis Medi 2001. Yn achos cyrsiau blwyddyn, telir y grant mewn naw rhandaliad misol o fis Hydref tan fis Mehefin. Bydd y taliadau o fis Hydref tan fis Mai, yn cynnwys Mai, yn £650; bydd y taliad olaf ym mis Mehefin yn £800. Yn Lloegr, telir y £6,000 mewn 9 rhandaliad cyfartal misol o fis Hydref tan fis Mehefin.
4. Yn ogystal, bydd £4,000 ychwanegol ar gael i'r sawl sy'n astudio mathemateg, gwyddoniaeth, ieithoedd tramor modern, technoleg neu Gymraeg ar lefel uwchradd sy'n cymryd swydd addysgu uwchradd yn y pynciau hynny ac sy'n cwblhau eu blwyddyn gyntaf o addysgu'n llwyddiannus. Mae cyllid tebyg ar gael yn Lloegr; mae'r pynciau cymhwysol yr un fath, yn ogystal â Saesneg.
5. Mae manylion llawn am y grantiau yng Nghymru wedi'u cynnwys yn y deunydd cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, ac mae copi ohono'n amgaeëdig.
6. Cyflwynwyd y grantiau yng Nghymru ar gyfer cyrsiau 2000-01 (ac ar gyfer cyrsiau ôl-raddedig cynradd yn unig yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol, 2001-02). Mae'r gofyniad i gwblhau'n llwyddiannus y flwyddyn addysgu gyntaf yn golygu na chaiff y taliadau cymhellion addysgu cyntaf o £4,000 eu gwneud cyn Medi 2002. Mae Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol wedi cyhoeddi y bydd grantiau ôl-raddedig cynradd hefyd ar gael ar gyfer 2002-03 a bydd y grantiau ar gyfer ôl-raddedigion ar lefel uwchradd ar gael tan o leiaf 2003-04; yna, byddai'r grantiau'n cael eu hadolygu.

**Cymhellion ychwanegol cyfrwng Cymraeg y Cynulliad Cenedlaethol**

7. Mae taliad cymhellol gwerth £1,200 ar gael i rai myfyrwyr sy’n dilyn cwrs hyfforddiant cychwynnol i athrawon trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyrsiau sy'n gymwys. Mae hyn wedi’i anelu at y myfyrwyr hynny sydd angen cymorth ychwanegol i wella'u hyder a'u cymhwysedd, fel y gallant addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Wedi iddynt gymhwyso, disgwylir iddynt chwilio am swydd mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.
8. Mae cyrsiau sy’n gymwys i dderbyn y tâl ychwanegol hwn yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn a gall myfyrwyr gael gwybodaeth amdanynt yn uniongyrchol oddi wrth y darparwyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon. Gwneir penderfyniadau ynghylch cymhwysedd myfyrwyr i dderbyn y cymhelliad hwn gan y sefydliadau sydd ynghlwm â’r cynllun a gofynnir i fyfyrwyr wirio eu cymhwysedd gyda hwy wrth ymgeisio.
9. Fel gyda’r cymhellion hyfforddiant cychwynnol i athrawon, gwneir taliadau i’r myfyrwyr gan y sefydliadau hyfforddiant cychwynnol i athrawon trwy ddefnyddio cyllid a ddarperir ar eu cyfer gan y Cynulliad Cenedlaethol. Telir y grant mewn dau randaliad o £600.

**Rhaglen Athrawon Graddedig y Cynulliad Cenedlaethol**

10. Mae’r Rhaglen Athrawon Graddedig yn galluogi ysgolion i gyflogi pobl nad ydynt hyd yma’n gymwys i addysgu a hyfforddi trwy gyfrwng rhaglen hyfforddiant unigol yn arwain at Statws Athro Cymwysedig. Y fantais i hyfforddeion yw eu bod yn gallu cymhwyso fel athro tra eu bod yn gweithio. Mae’r Rhaglen Athrawon Graddedig yn addas i bobl sydd am newid i yrfa addysgu ac ennill bywoliaeth tra eu bod yn hyfforddi. Mae hefyd yn briodol i’r sawl sydd wedi cael profiad perthnasol o ddysgu dramor neu mewn meysydd eraill megis y sectorau addysg bellach neu ysgolion annibynnol.
11. Fel rheol, mae’r Rhaglen Athrawon Graddedig yn golygu blwyddyn o hyfforddiant ôl-raddedig. I fod yn gymwys, rhaid i athrawon gael gradd gyntaf. Mae angen i hyfforddai ddod o hyd i swydd mewn ysgol a chael ei gais wedi ei gyflwyno gan ‘sefydliad argymhellol’ – hynny yw, yr ysgol, AALl, prifysgol neu ddarparwr hyfforddiant cychwynnol i athrawon sy’n gyfrifol am drefnu’r hyfforddiant.
12. Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn darparu cyllid o hyd at £13,000 i ysgolion ar gyfer cyflog a dibenion eraill (am hyd at 40 o leoedd blwyddyn-lawn yn y flwyddyn ariannol gyfredol) a, thrwy GEST, yn darparu cyllid ar gyfer hyfforddiant. Nid yw’r cyllid hwn yn mynd yn uniongyrchol i’r hyfforddai ond mae’n annog ysgolion i ystyried cynnig lleoedd na fyddai fel arall wedi bod yn bosib. I’r hyfforddai, mae’r lleoliad yn cynnig sicrwydd cyflogaeth gan ysgol a chyflog wrth iddo hyfforddi. Mae’r sefyllfa gyllido yn Lloegr yr un fath, ond yno y sefydliad argymhellol sy'n derbyn grant o hyd at £4,000 ar gyfer yr hyfforddiant, yn hytrach na'r cynllun GEST.
13. Ers i’r Rhaglen Athrawon Graddedig ddechrau ym 1998, mae cyfanswm o 33 o bobl wedi ennill Statws Athro Cymwysedig ar y cynllun hwn yng Nghymru. Mae 41 pellach ar y Rhaglen hon ar hyn o bryd. Mae’r Rhaglen Athrawon Graddedig yn cynnig tua 2,250 o leoedd eleni.

Nodyn 1: O ganlyniad i'r gofyniad i gofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, cafwyd nifer fechan o achosion o athrawon heb Statws Athro Cymwysedig. Yn yr holl achosion bron, y ffordd hawsaf i'r athrawon hynny i ennill Statws Athro Cymwysedig a gwneud eu sefyllfa yn un rheolaidd yw iddynt fynd ar y Rhaglen Athrawon Graddedig yn eu hysgolion. O ran athrawon profiadol, gall y cyrsiau hyn bara cyn lleied ag un tymor. Mewn achosion o'r fath, nid oes cyllid ar gael gan y Cynulliad Cenedlaethol gan fod yr ysgolion eisoes yn cyflogi'r athrawon.

Nodyn 2: Cynllun tebyg i'r Rhaglen Athrawon Graddedig ond wedi ei hanelu at y rhai sy'n gweithio tuag at eu cymwysterau addysg uwch yw'r Rhaglen Athrawon Cofrestredig. Mae'n gofyn i ymgeiswyr gwblhau dwy flynedd o addysg bellach yn llwyddiannus (neu gyfnod cyfatebol rhan amser) a chwblhau gradd tra eu bod yn hyfforddi; fel rheol mae'r rhaglen yn cymryd dwy flynedd. Ni thelir grantiau'n uniongyrchol i ysgolion ond mae cyllid ar gael trwy GEST ar gyfer hyfforddiant. Nid yw'r cyllid hwn yn mynd yn uniongyrchol i'r hyfforddai ond bydd yn cynnal ysgolion sy'n cynnig lleoedd.

### Cefnogaeth ariannol arall penodol i hyfforddiant cychwynnol i athrawon

14. **Ffioedd Hyfforddiant:** Ni ddylai myfyrwyr cymwys ar raglen hyfforddiant cychwynnol i athrawon ôl-raddedig orfod talu ffioedd hyfforddiant o gwbl. Mae hyn yn berthnasol i Gymru a Lloegr.
15. **Cynllun Recriwtio Hyfforddiant Athrawon:** Darperir hwn gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Gall dwy elfen o'r cynllun hwn ddarparu cefnogaeth i athrawon sy'n hyfforddi: Grantiau Lleoliad Israddedigion Uwchradd a chyllid Caledi. Adolygir y cynllun ar ôl 2002-03.
16. Bydd Grantiau Lleoliad Israddedigion Uwchradd yn talu grantiau lleoliad £1,000 i bob myfyriwr a noddir ar gyrsiau israddedig uwchradd pynciau lle mae prinder (mathemateg, gwyddoniaeth, ieithoedd tramor modern, technoleg a Chymraeg) a £600 i fyfyrwyr ar gyrsiau israddedig uwchradd nad ydynt yn bynciau lle mae prinder. Cynlluniwyd y grantiau i gynnal hyfforddeion yn ystod eu hymarfer yn yr ysgol. Gall cyllid caledi fod ar gael i ddarparu grant caledi bychan i fyfyrwyr lle mae anawsterau na ellid eu rhagweld yn codi a allai eu rhwystro rhag parhau ar y cwrs.
17. Nid oes cynllun sy'n cymharu'n union â hwn yn Lloegr. Gellir cynnig dyfarniadau hyfforddi pellach y tu hwnt i'r grantiau £6,000 yn Lloegr, ar sail anghenion ariannol, i hyfforddai uwchradd ar gyrsiau TGC israddedig ac ôl-raddedig. Rhaid i fyfyrwyr astudio un o'r pynciau canlynol: mathemateg, gwyddoniaeth, ieithoedd tramor modern, dylunio a thechnoleg, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, addysg grefyddol, cerddoriaeth neu ddaearyddiaeth. £5,000 (£7,500 i'r sawl sy'n 25 oed neu'n h•n) yw'r taliad mwyaf yn ystod unrhyw flwyddyn. Dyfernir y symiau mwyaf hyn mewn amgylchiadau arbennig yn unig ac nid oes hawl awtomatig i daliad ar unrhyw lefel, pa mor fach bynnag ydyw.

### Myfyrwyr ar gyrsiau TGC yng Nghymru

18. Mae’r ystadegau diweddaraf ar nifer y myfyrwyr ar gyrsiau hyfforddiant cychwynnol i athrawon yng Nghymru i’w gweld isod. Mae’r tabl hefyd yn dangos faint ohonynt oedd ar gyrsiau ôl-raddedig.

**Myfyrwyr ar gyrsiau TGC yng Nghymru, yn ôl lefel a rhyw (a)**

| | | 1996/97 | 1997/98 | 1998/99 | 1999/2000 | 2000/01 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dynion**: | | | | | | |
| | Tystysgrif Ôl-raddedig Addysg | 495 | 460 | 454 | 430 | 467 |
| | Gradd gyntaf yn arwain at Statws Athro Cymwys (SAC) | 643 | 536 | 484 | 407 | 395 |
| | Cyfanswm | 1,138 | 996 | 938 | 837 | 862 |
| **Menywod**: | | | | | | |
| | Tystysgrif Ôl-raddedig Addysg | 906 | 906 | 887 | 980 | 1,080 |
| | Gradd gyntaf yn arwain at SAC | 2,708 | 2,524 | 2,481 | 1,950 | 1,934 |
| | Cyfanswm | 3,614 | 3,430 | 3,368 | 2,930 | 3,014 |
| **Personau**: | | | | | | |
| | Tystysgrif Ôl-raddedig Addysg | 1,401 | 1,366 | 1,341 | 1,410 | 1,547 |
| | Gradd gyntaf yn arwain at SAC | 3,351 | 3,060 | 2,965 | 2,357 | 2,329 |
| | Cyfanswm | 4,752 | 4,426 | 4,306 | 3,767 | 3,876 |

Ffynhonnell: Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

19. Mae gwybodaeth yn seiliedig ar gofrestru ym mis Rhagfyr bob blwyddyn, felly nid yw data 2001-02 ar gael hyd yma. Mae data 2000-01 yn ddata dros dro.

**Cydymffurfiaeth**

20. Mae Adran 50 o Ddeddf Addysg (Rhif 2) 1986 yn gwneud darpariaeth ar gyfer rheoliadau gaiff eu gwneud ar gyfer talu grantiau’r Cynulliad Cenedlaethol i hwyluso ac annog hyfforddiant athrawon. Trosglwyddwyd adran berthnasol y Ddeddf i’r Cynulliad gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau 1999. Dirprwywyd y swyddogaethau i Weinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.

**Goblygiadau Ariannol**

21. Gellir cynnwys grantiau’r Cynulliad Cenedlaethol o fewn cyllidebau cyfredol a chynlluniau

a gynlluniwyd.

**Gweithredu'r Pwyllgor**

22. I'w nodi.

**Pwynt Cyswllt**

Is-adran Addysgu ac Arweinyddiaeth